
Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Masnach Cymru o dan gytundebau masnach y DU

Cyfres masnach ryngwladol

Tachwedd 2026



Rhagor o wybodaeth:
ymchwil.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NS

Tel: **0300 200 6565**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2026
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Masnach Cymru o dan gytundebau masnach y DU

Cyfres masnach ryngwladol

Tachwedd 2026

Awduron:
Sara Moran, Josh Jenkins a Peter Davies

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi dadansoddiad newydd o newidiadau i fasnach nwyddau Cymru o dan bump o gytundebau masnach y DU ar ôl Brexit â'r UE, Japan, Seland Newydd, Awstralia a bloc masnach y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel ("CPTPP").

Er bod pob perthynas fasnachu yn unigryw, daeth themâu cyffredin i'r amlwg sy'n sail i'r prif ganfyddiadau a nodir ar ddechrau'r papur briffio hwn. Ar ôl hynny, rhoddir dadansoddiad o bob cytundeb, gan gynnwys:

- Yr ystadegau diweddaraf ynghylch gwerth a symiau masnach;
- Sut mae masnach nwyddau wedi newid ers i bob cytundeb ddod i rym;
- Masnach nwyddau tymor hwy yn ôl gwerth a symiau, wedi'i dadansoddi yn ôl allforion a mewnforion; a
- Rhestr o ffynonellau defnyddiol.

Rhagor o wybodaeth:
ymchwil.senedd.cymru


L5G1
4244 40 5
45G1
CAUTION
835437
45G1
037882
45G1
120491
L5G1
510573
45G1
002352
45G1
CAUTION
582220
L5G1
4047 57 7
45G1
CAUTION
HIGH
TRAILER
4196 61 0
45G1
CAUTION
HIGH
TRAILER
5648 02 1

Cynnwys

1. Prif ganfyddiadau 6
2. Y cefndir 8
3. Yr UE 11
4. Japan 15
5. Seland Newydd 18
6. Awstralia 21
7. Y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel ("CPTPP") 24
8. India 27

1. Prif ganfyddiadau


Mae swm y nwyddau ffisegol a fasnachir (symiau masnach) â phob un o'r pum partner wedi gostwng ers i'r cytundebau ddod i rym. Dros y cyfnodau a ddadansoddwyd, gostyngodd cyfanswm y fasnach 83.3% â Japan, 75.9% ag Awstralia, 73.7% â bloc masnach y CPTPP, 22.8% â Seland Newydd ac 8.9% â'r UE. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn mewnforion o Awstralia i Gymru, a oedd wedi gostwng 98.4% erbyn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2026.

Mae'r darlun yn fwy anghyson o ran newidiadau yng ngwerth masnach rhwng Cymru a'r pum partner. Gall newidiadau o'r fath adlewyrchu amrywiadau yng ngwerth cynhyrchion penodol felly nid ydynt o reidrwydd yn dilyn newidiadau o ran nifer y nwyddau a fasnachir. Cynyddodd gwerthoedd masnach cyffredinol 35.2% â Seland Newydd, 17.1% ag Awstralia, 10.4% â'r UE ac 1.7% â bloc masnach y CPTPP dros y cyfnodau a ddadansoddwyd, ond gwnaethant ostwng 44.7% â Japan.

Er y gellir priodoli gostyngiadau mewn masnach i ffactorau fel dirywiad economaidd byd-eang, llai o alw gan ddefnyddwyr a tharfu ar y gadwyn gyflenwi, mae'r dadansoddiad yn dangos na fu llawer o fanteision i Gymru. Gostyngodd masnach rhwng Cymru a Japan o ran gwerth a swm dros y cyfnod a ddadansoddwyd (44.7% o ran gwerth ac 83.3% o ran swm). Cynyddodd gwerth masnach â'r pedwar partner arall er i symiau masnach ostwng, ond gwelwyd y cynnydd mwyaf ag Awstralia a Seland Newydd, sef y partneriaid masnach lleiaf a drafodir yn y dadansoddiad hwn.

Cynyddodd gwerth masnach rhwng Cymru a'i phartner masnach mwyaf, yr UE, o dan y cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE ond ni ddychwelodd y swm i'r lefelau a welwyd cyn Brexit. Dros y cyfnod a ddadansoddwyd, bu gostyngiadau sylweddol o ran swm y nwyddau a fasnachwyd rhwng Cymru a'r UE, hyd at 31.0%. Nid oedd y swm wedi gwella'n llwyr ar ôl pum mlynedd o dan y cytundeb, gan aros tua 8.9% yn is na'r cyfnod cyn i'r DU adael y bloc masnach. Yn y cyfamser, cynyddodd gwerth masnach 10.4% oherwydd cynnydd yng ngwerth mewnforion o'r UE i Gymru.

Ffigur 1: Newidiadau canrannol i werth a swm masnach nwyddau rhwng Cymru a phob partner, o'i gymharu â llinell sylfaen pob partner




Ffynhonnell: **Ystadegau Masnach Rhanbarthol** (CThEF, 2026). Dadansoddiad Ymchwil y Senedd o gyfnodau cymaradwy o amser cyn ac ar ôl i bob cytundeb ddod i rym (2014-2026).

2. Y cefndir

Mae'r papur briffio hwn yn dilyn trefn gronolegol ers cyflwyno pob cytundeb, fel y dangosir yn Ffigur 2. Mae'n dechrau gyda'r UE a Japan, yna Seland Newydd ac Awstralia, cyn gorffen gyda bloc masnach y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel ("y CPTPP"). Ystyrir masnach rhwng Cymru ac India yn gryno yn adran 8 cyn i gytundeb masnach y DU ac India ddod i rym ar 15 Gorffennaf 2026.

Ffigur 2: Cytundebau masnach y DU ar ôl Brexit a phryd y daethant i rym




Ffynhonnell: **Tudalen adnoddau ar gyfer masnach ryngwladol** (Ymchwil y Senedd, 2026)

Mae'r cyfanswm diweddaraf o ran gwerth masnach nwyddau Cymru â'r partneriaid hyn yn cyfrif am tua 47% o gyfanswm gwerth ei **masnach ryngwladol mewn nwyddau** yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn ail chwarter 2026 (£19.7 biliwn o £41.6 biliwn), a 36% o'r cyfanswm ar gyfer symiau masnach (8.5 biliwn/kg o 23.6 biliwn/kg).

Yr UE yw partner masnach mwyaf Cymru o blith y grŵp, gan gyfrif am 87% o werth ac 94% o swm y nwyddau a fasnachir o dan y cytundebau a archwiliwyd yn y briff hwn. Mae Ffigur 3 yn dangos pwysigrwydd cymharol y partneriaid masnach hyn i Gymru ac i'w gilydd.

Ffigur 3: Masnach nwyddau rhwng Cymru a'r partneriaid perthnasol o dan gytundebau masnach y DU a drafodir yn y papur briffio hwn, yn ôl gwerth (£bn) a swm (bn/kg); y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch2 2026)



Ffynhonnell: **Masnach nwyddau rhyngwladol: dangosfwrdd rhyngweithiol** (Llywodraeth Cymru, 2026)

Y dull gweithredu

Mae'r dadansoddiad hwn yn edrych ar gyfnodau cymaradwy o amser o'i gymharu â phryd y daeth pob cytundeb i rym gan ddefnyddio **Ystadegau Masnach Rhanbarthol CThEF**.

Mae pob dadansoddiad yn cymharu cyfnodau o amser chwarterol ddiwedd y flwyddyn. Er enghraifft, daeth y cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE i rym yn chwarter cyntaf 2021. Defnyddir y flwyddyn a ddaeth i ben yn chwarter cyntaf 2020 fel llinell sylfaen, gan gymharu chwarteri cyfatebol hyd at yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y chwarter cyntaf, sef y flwyddyn a ddaeth i ben yn chwarter cyntaf 2026.

Cyfrifir newidiadau canrannol gan ddefnyddio pob un o'r dangosyddion a ganlyn yn ôl gwerth a swm: cyfanswm masnach, allforion a mewnforion.

Gyda'i gilydd, cyfeirir at y cyfnodau amser a'r dangosyddion hyn fel 'pob dangosydd' yn y papur briffio hwn wrth ddod i gasgliadau, er enghraifft bod 'symiau masnach wedi gostwng ar draws pob dangosydd a ddadansoddwyd'.

Covid-19

Effeithiodd pandemig y coronafeirws ar fasnach yn bennaf rhwng 2020-2022. Gostyngodd allforion Cymru 19.0% a gostyngodd mewnforion 28.6% yn 2020 o'i gymharu â lefelau 2019, yn ôl y **Swyddfa Ystadegau Gwladol.** Er bod masnach Cymru wedi dychwelyd i'r un lefelau â welwyd cyn y pandemig erbyn diwedd 2022, rhybuddiodd Llywodraeth Cymru ar y pryd fod Cymru yn dal i adfer, yn ôl **adroddiad y BBC**.

Brexit

Pan ymadawodd y DU â bloc masnach yr UE, cafwyd effaith sylweddol ar fasnach Cymru dros gyfnod tebyg i bandemig y coronafeirws. Er y bu'n anodd dadgyfuno'r ddau i ddechrau, mae wedi dod yn haws gwneud hynny wrth i ragor o ddata gael eu casglu dros amser. Gellir gweld rhai tueddiadau pwysig a gaiff eu trafod yn adran 3 o'r papur briffio hwn.

3. Yr UE


Daeth Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE i rym ar 1 Ionawr 2021. Er i fasnach â'r UE gynyddu o ran gwerth dros y cyfnod a ddadansoddwyd, ni ddychwelodd i'r lefelau a welwyd cyn Brexit. Yr UE yw partner masnach mwyaf Cymru o hyd o bell ffordd. Cyfanswm gwerth diweddaraf y nwyddau a fasnachir rhwng Cymru a'r UE yw £19.7 biliwn, sef tua 47% o holl fasnach ryngwladol Cymru yn ôl gwerth.

Mae'n heriol cymharu ystadegau masnach cyn ac ar ôl Brexit am fod **newidiadau wedi eu gwneud** i ganiatáu ar gyfer gweithdrefnau newydd o ran tollau a dulliau casglu data. Serch hynny, gellir nodi rhai tueddiadau arwyddocaol. Mae canran y newidiadau mewn gwerthoedd a symiau masnach ers 2020, pan oedd y DU yn dal i fod yn yr UE,[1] yn dangos maint y newidiadau o ran masnach rhwng Cymru a'r UE ers Brexit. Dangosir y rhain yn Ffigur 4.

Roedd symiau'r fasnach i lawr ar draws yr holl ddangosyddion a ddadansoddwyd, hyd at 31.0%. Mae Ffigur 4 yn dangos gostyngiadau sylweddol i swm y nwyddau a fasnachwyd rhwng Cymru a'r UE ers Brexit. Nid oedd y symiau wedi gwella'n llwyr erbyn diwedd y cyfnod a ddadansoddwyd (y flwyddyn a ddaeth i ben yn chwarter cyntaf 2026), gan aros tua 8.9% yn is na'r cyfnod cyn i'r DU adael bloc masnach yr UE.

[1] Er i'r DU adael yr UE yn ffurfiol ar 31 Ionawr 2020, parhaodd ei hamodau masnachu heb eu newid oherwydd cyfnod pontio Brexit a oedd ar waith rhwng 1 Chwefror 2020 a 31 Rhagfyr 2020. O 1 Ionawr 2021, daeth trefniadau yn dilyn Brexit i rym o ddifrif, gan gynnwys masnachu o dan y Cytundeb Masnach A Chydweithredu a rheolau masnach eraill.

Ffigur 4: Newidiadau i werth (£bn) a symiau (kg) masnach rhwng Cymru a'r UE (y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch1 2014 – Ch1 2026) o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch1 2020




Ffynhonnell: **Ystadegau Masnach Rhanbarthol** (CThEF, 2026)

Gostyngodd gwerth y nwyddau a fasnachwyd yn sydyn yn syth ar ôl Brexit yn 2021 a 2022 ar draws pob dangosydd a ddadansoddwyd. Roedd cyfanswm gwerth masnach â'r UE i fyny 10.4% ar ddiwedd y cyfnod a ddadansoddwyd (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026) o'i gymharu â'r cyfnod cyn i'r DU adael y bloc.

Gwerth mewnforion o'r UE i Gymru oedd wrth wraidd hyn, lle roedd y newidiadau canrannol a welwyd yn gyson uwch na gwerth allforion o Gymru i'r UE ers 2023. Cynyddodd gwerth allforion 5.4% ond cynyddodd gwerth mewnforion 18.2%.

Mae Ffigur 5 yn dangos masnach nwyddau rhwng Cymru a'r UE o flwyddyn i flwyddyn yn ôl gwerth ers 2014. Gellir gweld yr amrywiadau o ran gwerthoedd masnach yng nghyd-destun aelodaeth y DU o'r UE a phryd y daeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i rym.


Ffigur 5: Masnach nwyddau rhwng Cymru a'r UE yn ôl gwerth (£bn; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch1 2014 – Ch1 2026)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Rhanbarthol (CThEF, 2026)

Mae Ffigur 6 yn dangos yr un wybodaeth ond ar gyfer swm y nwyddau a fasnachwyd. Gellir gweld gostyngiadau ond nid ydynt yn adlewyrchu'r holl newidiadau i fasnach rhwng Cymru a'r UE ers i'r DU ymadael â'r UE, fel yr eglurir uchod ac a ddangosir yn Ffigur 4.

Ffigur 6: Masnach nwyddau rhwng Cymru a'r UE yn ôl swm (bn/kg; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch1 2014 – Ch1 2026)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Rhanbarthol (CThEF, 2026)

Ffynonellau defnyddiol

Ymchwil y Senedd

- **Tudalen adnoddau ar gyfer masnach ryngwladol** (Mehefin 2026)
- **Deall masnach nwyddau rhwng Cymru a'r UE ers Brexit** (Mehefin 2026)
- **Adolygu'r cytundeb Brexit: Pedair blynedd gyntaf y Cytundeb Masnach a Chydweithredu o safbwynt Cymru** (Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru


- **Y Berthynas Newydd â'r UE: Beth mae'n ei olygu i Gymru** (Chwefror 2021)
- **Atodiad: Beth mae'n ei olygu i fusnesau yng Nghymru** (Chwefror 2021)

4. Japan

Daeth Cytundeb Partneriaeth Economaidd Cynhwysfawr y DU a Japan i rym ar 1 Ionawr 2021. Ar ôl sicrhau cytundeb â'r UE, cytundeb â Japan oedd prif flaenoriaeth ond un Llywodraeth Cymru ar y pryd. Cyfanswm gwerth diweddaraf y nwyddau a fasnachir rhwng Cymru a Japan yw £495 miliwn. Ymhlith partneriaid masnach Cymru, mae hynny'n rhoi Japan yn y 13eg safle ar gyfer allforion a'r 23ain ar gyfer mewnforion.

Mae newidiadau canrannol i werthoedd a symiau masnach yn dangos gostyngiadau sylweddol o gymharu â'r cyfnod cyn i'r cytundeb ddod i rym.

Ffigur 7: Newidiadau i werth (£bn) a symiau (mn/kg) masnach rhwng Cymru a Japan (y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch1 2014 – Ch1 2026) o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch1 2020




Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Rhanbarthol (CThEF, 2026)

Roedd masnach â Japan i lawr 44.7% o ran gwerth a 83.3% o ran swm dros y cyfnod a ddadansoddwyd. Mae'r gostyngiadau hyd yn oed yn fwy mewn perthynas â mewnforion o Japan i Gymru. Roedd y rhain i lawr 65.9% o ran gwerth a 87.2% o ran swm. Mae Ffigur 7 yn dangos y newidiadau canrannol hyn.

Dangosir masnach nwyddau rhwng Cymru a Japan o flwyddyn i flwyddyn yn ôl gwerth yn Ffigur 8. Er bod gwerth allforion wedi aros yn gymharol gyson, mae gwerth mewnforion wedi amrywio, ac mae'r newidiadau canrannol a ddisgrifiwyd uchod yn arwydd o hynny. Dangosir y rhain ochr yn ochr â'r cyfnodau o amser y bu'r DU yn aelod o'r UE a chytundeb y DU a Japan yn dod i rym.

Ffigur 8: Masnach nwyddau rhwng Cymru a Japan yn ôl gwerth (£bn; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch1 2014 – Ch1 2026)




Ffynhonnell: **Ystadegau Masnach Rhanbarthol** (CThEF, 2026)

Mae Ffigur 9 yn dangos yr un wybodaeth yn ôl swm y nwyddau a fasnachir rhwng Cymru a Japan. Dangosir y symiau mewn miliynau yn hytrach na biliynau i gofnodi'r nifer fach o allforion o Gymru i Japan o'i gymharu â'r symiau mwy o fewnforion o Japan i Gymru.

Mae'r newidiadau o ran swm y mewnforion o Japan yn fwy amlwg yma nag yn Ffigur 8, gyda gostyngiadau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Ymddengys fod hynny o ganlyniad i ostyngiad mewn masnach ar draws sawl categori o gynhyrchion, gan gynnwys olew anifeiliaid a llysiau, cemegau, tanwydd mwynau, deunyddiau crai, diodydd a thybaco.

Ffigur 9: Masnach nwyddau rhwng Cymru a Japan yn ôl swm (mn/kg; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch1 2014 – Ch1 2026)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Rhanbarthol (CThEF, 2026)

Ffynonellau defnyddiol

Ymchwil y Senedd

Tudalen adnoddau ar gyfer masnach ryngwladol (Mehefin 2026)

Trafodaethau masnach rydd y Deyrnas Unedig: beth yw'r wybodaeth ddiweddaraf? (Rhagfyr 2020)

Llywodraeth Cymru

Datganiad Ysgrifenedig: Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Japan (Medi 2020)

Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi 'Cytundeb Partneriaeth Economaidd Cynhwysfawr y DU a Siapan: Asesiad Llywodraeth Cymru' (Rhagfyr 2020)

Llywodraeth y DU


Cytundeb masnach y DU a Japan yn cynnig hwb i fusnesau Cymru (Medi 2020)

5. Seland Newydd

Daeth Cytundeb Masnach Rydd y DU a Seland Newydd i rym ar 31 Mai 2023. Seland Newydd yw'r partner masnach lleiaf a drafodir yn y papur briffio hwn a dangosir gwerthoedd mewn miliynau yn hytrach na biliynau i adlewyrchu hyn. Cyfanswm gwerth diweddaraf y nwyddau a fasnachir rhwng Cymru a Seland Newydd yw £47 miliwn. O blith partneriaid masnach Cymru, mae hynny'n rhoi Seland Newydd yn y 56fed safle ar gyfer allforion a'r 63ain ar gyfer mewnforion.

Mae newidiadau canrannol yn dangos cynnydd o 35.2% yng nghyfanswm gwerth y nwyddau a fasnachwyd o'i gymharu â'r cyfnod cyn i'r cytundeb ddod i rym. Cynnydd mewn gwerthoedd allforio a mewnforio oedd wrth wraidd hyn.

Ffigur 9: Newidiadau i werth (£mn) a symiau (kg) masnach nwyddau rhwng Cymru a Seland Newydd (y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch2 2014 – Ch2 2026) o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch2 2022




Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Rhanbarthol (CThEF, 2026)

Mae symiau masnach wedi gostwng ar draws pob dangosydd a ddadansoddwyd. Y gostyngiad mwyaf oedd 42.9% mewn allforion erbyn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024.

Dangosir masnach nwyddau rhwng Cymru a Seland Newydd o flwyddyn i flwyddyn yn ôl gwerth yn Ffigur 11. Dangosir y datblygiadau hyn ochr yn ochr â'r cyfnodau o amser y bu'r DU yn aelod o'r UE a phryd y daeth cytundeb y DU a Seland Newydd i rym.


Ffigur 11: Masnach nwyddau rhwng Cymru a Seland Newydd yn ôl gwerth (£mn; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch2 2014 – Ch2 2026)



Ffynhonnell: **Ystadegau Masnach Rhanbarthol** (CThEF, 2026)

Mae Ffigur 12 yn dangos yr un wybodaeth yn ôl swm y nwyddau a fasnachir rhwng Cymru a Seland Newydd. Mae'n dangos gostyngiad sylweddol dros y degawd gyda nifer ffisegol y nwyddau a fasnachir rhwng y ddwy wlad yn cyrraedd ei phwynt isaf ers deng mlynedd yn y flwyddyn cyntaf y cytundeb (sef y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024). Roedd cynnydd yn ail a thrydydd flwyddyn y cytundeb (sef blynyddoedd a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 a mis Mehefin 2026) yn golygu bod cyfrolau allforion wedi gwella ychydig, ond nid ydynt wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn i'r cytundeb ddod i rym.

Ffigur 12: Masnach nwyddau rhwng Cymru a Seland Newydd yn ôl swm (mn/kg; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch3 2014 – Ch3 2025)



Ffynhonnell: **Ystadegau Masnach Rhanbarthol** (CThEF, 2026)

Ffynonellau defnyddiol

Ymchwil y Senedd

Tudalen adnoddau ar gyfer masnach ryngwladol (Mehefin 2026)

Cytundebau masnach y DU ag Awstralia a Seland Newydd: beth yw eu harwyddocâd i Gymru? (Awst 2022)

Llywodraeth Cymru


Cytundeb Masnach Rydd y DU-Seland Newydd: safbwynt Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2022)

6. Awstralia

Daeth Cytundeb Masnach Rydd y DU ac Awstralia i rym ar 31 Mai 2023. Awstralia yw'r partner masnach lleiaf ond un a drafodir yn y papur briffio hwn a dangosir gwerthoedd mewn miliynau yn hytrach na biliynau i adlewyrchu hyn. Cyfanswm gwerth diweddaraf y nwyddau a fasnachir rhwng Cymru ac Awstralia yw £216 miliwn. O blith partneriaid masnach Cymru, mae hynny'n rhoi Awstralia yn yr 23ain safle ar gyfer allforion a'r 49ain ar gyfer mewnforion.

Mae newidiadau canrannol yn dangos cynnydd o 17.1% yng nghyfanswm gwerth y nwyddau a fasnachwyd o'i gymharu â'r cyfnod cyn i'r cytundeb ddod i rym. Er bod gwerth allforion wedi cynyddu 35.3% yn yr un cyfnod, cafodd ei gydbwyso i raddau gan ostyngiad o 24.5% yng ngwerth y mewnforion.

Ffigur 12: Newidiadau i werth (£mn) a symiau (kg) masnach nwyddau rhwng Cymru ac Awstralia (y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch2 2014 – Ch2 2026) o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch2 2022




Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Rhanbarthol (CThEF, 2026)

O ran symiau masnach, yn achos pob dangosydd a ddadansoddwyd gwelir gostyngiadau sydyn ers i'r cytundeb ddod i rym, gyda gostyngiad o 75.9% yn nifer y nwyddau a fasnachwyd rhwng y ddwy wlad erbyn 2026. Roedd gostyngiadau sylweddol yng ngwerth y mewnforion i Gymru o Awstralia wrth wraidd hyn dros y cyfnodau a ddadansoddwyd, sef gostyngiad o 97.6% yn 2025 a 98.4% yn 2026.

Dangosir masnach nwyddau rhwng Cymru ac Awstralia o flwyddyn i flwyddyn yn ôl gwerth yn Ffigur 14. Mae'n dangos sut y cyrhaeddodd gwerth allforion o Gymru i Awstralia ei lefel uchaf mewn un ar ddeg mlynedd o dan y cytundeb.

Ffigur 14: Masnach nwyddau rhwng Cymru ac Awstralia yn ôl gwerth (£mn; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch2 2014 – Ch2 2026)




Ffynhonnell: **Ystadegau Masnach Rhanbarthol** (CThEF, 2026)

Fodd bynnag, roedd gwerth mewnforion yn 2026 ymhlith yr isaf ar gyfer y cyfnod o 12 mlynedd ers dechrau casglu ystadegau cymaradwy. Dangosir y datblygiadau hyn ochr yn ochr â'r cyfnodau o amser y bu'r DU yn aelod o'r UE a phryd y daeth cytundeb y DU ac Awstralia i rym.

Mae Ffigur 15 yn dangos yr un wybodaeth yn ôl swm y nwyddau a fasnachir rhwng Cymru ac Awstralia. Mae'n dangos bod nifer ffisegol y nwyddau a fasnachir rhwng y ddwy wlad wedi cyrraedd ei lefel isaf ers 12 mlynedd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025, sef ail flwyddyn y cytundeb. Y flwyddyn ar ôl hynny, sef y flwyddyn a ddaeth i ben yn mis Mehefin 2026,

gwelwyd y lefel isaf ond un ers dechrau casglu ystadegau cymaradwy. Gellir priodoli'r ddau ostyngiad i ostyngiadau mewn mewnforion o Awstralia i Gymru.

Ffigur 15: Masnach nwyddau rhwng Cymru ac Awstralia yn ôl swm (mn/kg; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch2 2014 – Ch2 2026)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Rhanbarthol (CThEF, 2026)

Ffynonellau defnyddiol

Ymchwil y Senedd

Tudalen adnoddau ar gyfer masnach ryngwladol (Mehefin 2026)

Cytundeb masnach y DU-Awstralia: beth ydym ni'n ei wybod hyd yn hyn? (Gorffennaf 2021)

Cytundebau masnach y DU ag Awstralia a Seland Newydd: beth yw eu harwyddocâd i Gymru? (Awst 2022)

Llywodraeth Cymru

Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU- Awstralia: Safbwynt Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2022)

Llywodraeth y DU

Gweinidogion yn cwrdd ag allforwyr Gogledd Cymru (Mawrth 2023)


7. Y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (“CPTPP”)

Mae'r DU yn aelod o un bloc masnach, sef y CPTPP. Grŵp o 11 o wladwriaethau yn rhanbarth Cefnfor India a’r Môr Tawel yw’r CPTPP, sy’n cynnwys Awstralia, Brunei, Canada, Chile, Japan, Malaysia, Mecsico, Seland Newydd, Periw, Singapore a Fietnam. Ymunodd y DU ar 15 Rhagfyr 2024 a dyma’r unig aelod Ewropeaidd o hyd. Cyfanswm gwerth diweddaraf y nwyddau a fasnachir rhwng Cymru a'r bloc yw £2.2 biliwn.

O'i gymharu â’r cyfnod cyn i'r cytundeb ddod i rym, mae newidiadau canrannol yn dangos bod cyfanswm gwerth y nwyddau a fasnachwyd rhwng Cymru a’r bloc wedi parhau’n gyson yn ystod y cyfnod a ddadansoddwyd, gyda chynnydd o 1.7%. Y rheswm am hynny yw am fod cynnydd o 14.5% yng ngwerth allforion wedi cydbwyso’r gostyngiad o 14.0% yng ngwerth mewnforion.

Mae symiau’r fasnach yn adrodd stori wahanol. Gwelwyd gostyngiadau sylweddol yma dros y cyfnod a ddadansoddwyd, gyda gostyngiad o 73.7% o ran y nwyddau ffisegol a fasnachwyd. Symiau’r mewnforion oedd wrth wraidd y gostyngiad hwn, gyda gostyngiad o 93.8% mewn mewnforion o'r bloc i Gymru erbyn mis Rhagfyr 2025. Er bod swm yr allforion o Gymru i'r bloc wedi cynyddu gan 20.0%, nid oedd y gostyngiad mewn mewnforion yn ddigon i gydbwyso masnach rhwng Cymru a phartneriaid y CPTPP.


Ffigur 16: Newidiadau yng ngwerthoedd masnach nwyddau rhwng Cymru a phartneriaid y CPTPP (£bn) a symiau (kg) (y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch4 2014 – Ch4 2025) o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch4 2023



Ffynhonnell: **Ystadegau Masnach Rhanbarthol** (CThEF, 2026)

Gellir gweld masnach nwyddau rhwng Cymru a phartneriaid y CPTPP o flwyddyn i flwyddyn yn ôl gwerth yn Ffigur 17. Gellir gweld y datblygiadau hyn ochr yn ochr â'r cyfnodau amser y bu'r DU yn aelod o'r UE ac o'r CPTPP.


Ffigur 17: Masnach nwyddau rhwng Cymru a phartneriaid y CPTPP yn ôl gwerth (£bn; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch4 2014 – Ch4 2025)



Ffynhonnell: **Ystadegau Masnach Rhanbarthol** (CThEF, 2026)

Mae Ffigur 18 yn dangos yr un wybodaeth yn ôl swm y nwyddau a fasnachwyd rhwng Cymru ac aelodau'r CPTPP. Mae'n dangos bod swm y nwyddau ffisegol a fasnachwyd â'r bloc wedi cyrraedd ei lefel isaf ers 11 mlynedd ym mlwyddyn gyntaf aelodaeth y DU, sef y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025.

Ffigur 18: Masnach nwyddau rhwng Cymru a phartneriaid y CPTPP yn ôl swm (bn/kg; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch4 2014 – Ch4 2025)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Rhanbarthol (CThEF, 2026)

Ffynonellau defnyddiol

Ymchwil y Senedd

Cymru a Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP) (Hydref 2023)

Tudalen adnoddau ar gyfer masnach ryngwladol (Mehefin 2026)

Llywodraeth Cymru

Datganiad Ysgrifenedig: Y DU yn Dod yn Aelod o Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP) (Gorffennaf 2023)

Llywodraeth y DU


Hwb i fusnesau Cymru wrth i'r DU daro bargen i ymuno â'r bloc masnach rydd enfawr yn ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel (Ebrill 2023)

8. India

Daeth cytundeb masnach newydd, y Cytundeb Economaidd a Masnachu Cynhwysfawr rhwng y DU ac India (“CETA”), i rym ar 15 Gorffennaf 2026. Mae'r adran hon yn trafod yr ystadegau diweddaraf ar fasnach rhwng Cymru ac India hyd at y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2026. Nid oes ystadegau ar gael eto ar gyfer y cyfnod ar ôl i’r cytundeb ddod i rym.

Cyfanswm gwerth diweddaraf y nwyddau a fasnachir rhwng Cymru ac India yw £886 miliwn. O blith **partneriaid masnachu** Cymru, mae hynny’n rhoi India yn yr 15fed safle ar gyfer allforion a’r 9fed ar gyfer mewnforion. Mae haearn a dur yn cyfrif am 92.3% o'r **holl fewnforion o India i Gymru** o ran swm a 47.0% o ran gwerth.

Ffigur 19: Masnach nwyddau rhwng Cymru ac India yn ôl gwerth (£bn; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch2 2014 – Ch2 2026)




Ffynhonnell: **Ystadegau Masnach Rhanbarthol** (CThEF, 2026)

Dangosir masnach nwyddau rhwng Cymru ac India o flwyddyn i flwyddyn yn ôl gwerth yn Ffigur 19. Mae'n dangos bod gwerthoedd mewnforion wedi cyrraedd eu lefel uchaf ers 12 mlynedd ers diffodd y ffwrneisiau chwyth ym Mhort Talbot ym mis Medi 2024, gan ddod â gwneud dur cynradd i ben. Mae Ffigur 19 hefyd yn dangos y cyfnodau o amser y bu'r DU yn aelod o'r UE a phryd y daeth cytundeb y DU ac India i rym.

Mae Ffigur 20 yn dangos yr un wybodaeth yn ôl swm y nwyddau a fasnachwyd rhwng Cymru ac India. Gellir priodoli graddau'r newidiadau i swm ffisegol y nwyddau a fewnforiwyd o India i Gymru ers 2024 i gynnydd sylweddol mewn mewnforion haearn a dur. Yn y blynyddoedd a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 a mis Mehefin 2026, cyrhaeddodd swm ffisegol y nwyddau a fewnforiwyd o India i Gymru eu lefel uchaf ers 12 mlynedd.

Mae'r **cytundeb masnach rhwng y DU ac India** bron yn treblu'r cwota heb dariffau ar gyfer mewnforion dur galfanedig o India, ac felly mae'n bosibl y bydd mewnforion yn cynyddu ymhellach. Mae gwaith dur Llanwern yn **cyflenwi tua hanner** yr holl ddur a ddefnyddir gan y DU yn ddomestig.

Ffigur 20: Masnach nwyddau rhwng Cymru ac India yn ôl swm (mn/kg; y blynyddoedd a ddaeth i ben yn Ch2 2014 – Ch2 2026)



Ffynhonnell: **Ystadegau Masnach Rhanbarthol** (CThEF, 2026)

Ffynonellau defnyddiol

Ymchwil y Senedd

Cysylltiadau rhwng Cymru ac India (Ebrill 2024)

Tudalen adnoddau ar gyfer masnach ryngwladol (Mehefin 2026)

Llywodraeth Cymru

Y Cytundeb Economaidd a Masnachu Cynhwysfawr rhwng y DU ac India (CETA): safbwynt Llywodraeth Cymru (Chwefror 2026)

Llywodraeth y DU

Arwyddo cytundeb masnach hanesyddol gydag India i ddarparu hwb gwerth £80 miliwn i Gymru (Gorffennaf 2025)